

# HyBont Pen-y-bont ar Ogwr Prosiect Hydrogen Gwyrdd

**Marubeni Europower**

## Am y prosiect

Mae **Marubeni Europower** i yn datblygu cynlluniau ar gyfer cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ac ail-lenwi â thanwydd yn Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn, wedi'i bweru'n rhannol gan fferm solar ym Mryncethin.

Rhagwelir y bydd y cyfleuster hydrogen gwyrdd yn helpu i gefnogi strategaeth sero net Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) trwy ddarparu tanwydd carbon isel i'w ddefnyddio'n lleol, ar gyfer ei fflyd o gerbydau casglu sbwriel a bysiau a weithredir yn lleol.

Mae'r Cyngor hefyd yn archwilio'r potensial ar gyfer rhwydwaith gwres Ynysawdre, a fyddai'n darparu ffordd carbon isel i wresogi ysgolion a chyfleusterau cymunedol lleol.

## Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC)

Cynhaliwyd y PAC ar y cynigion Tachwedd/Rhagfyr 2022, gyda thrigolion lleol, busnesau a rhanddeiliaid yn gallu cyflwyno sylwadau tan 6 Ionawr 2023.

## Camau nesaf

Mae'r cais cynllunio i fod i gael ei gyflwyno ym Mawrth/Ebrill 2023.

Yna bydd cyfle i roi sylwadau ar y cynigion terfynol yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y disgwylir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fel yr awdurdod cynllunio lleol, ei gynnal ym mis Ebrill/Mai 2023.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, ewch i: [www.hybont.co.uk](http://www.hybont.co.uk)



**Bwrdd 1. Prosiect Hydrogen Gwyrdd HyBont.** Mae Marubeni Europower i yn datblygu cynlluniau ar gyfer cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ac ail-lenwi â thanwydd yn Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn, wedi'i bweru'n rhannol gan fferm solar ym Mryncethin.

**Bwrdd 2. Am Hydrogen.** Hydrogen yw'r elfen symlaf a mwyaf niferus yn y bydysawd, ac er ein bod yn gweld twf cyflym o fewn y dechrau hwn ar hyn o bryd, mae mwy na 70 miliwn tunnell o hydrogen yn cael ei gynhyrchu'n fyd-eang bob blwyddyn i'r mwyaf i ddefnyddio fel ffyniell, ac mae'r DU wedi bod yn cynhyrchu ac yn dosbarthu hydrogen ers dros 600 olyn.

**Bwrdd 3. Dyluniad.** Bydd y prosiect yn cael ei adeiladu gyda'r help o'r Cynllun Lleoliad a Safon. Bydd y prosiect yn cael ei gylchrethu gan Dair Cymru. Disgwylir i offer adeiladu yn y cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwynedig gael ei gynnwys yn bennaf o fewn unedau parod mewn cymyngyddion a gludwr i safon. Mae'r osod newydd i'r adeiladu gwynedig yn ddiogel i'r safon a gael eu hadeiladu o'r ffordd canol ariannu. Hŏw a chestyrbu casglu gwastraff.

**Bwrdd 4. Fferm solar.** Bydd safon ariannu ym Mryncethin yn cynhyrchu hyd at 5.5MW o ddydd ac mae'n agos at safon cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd arferiedig er mwyn gellwedd cynhyrchu unigrywedd.

**Bwrdd 5. Cysylltiad Cebli.** Bydd trwyddi gan areawu solar yn cael ei gysylltu â'r cyfleuster hydrogen gwyrdd trwy gysylltiad gwifren grefniedd lloedd uchel (3-cam 10kV).

**Bwrdd 6. Ddarparodd dros 100 o bobl adborth.** Mae'r adeiladu gwynedig a'r fferm solar yn cael eu cynhyrchu fel rhan o'r cais cynllunio.

## Digwyddiadau galw heibio cyhoeddus yr ymgynghoriad cyn ymgeisio!

- Dros 1,200** o lythyrau/taflenni wedi'u hanfon i gyfeiriadau preswyl a busnes
- 2** ddigwyddiad galw heibio ag arddangosfa gyhoeddus
- 130** o bobl Mynychwyd gan dros
- Dros 700** o ymwelwyr unigryw â gwefan y prosiect
- Dros 100** o bobl adborth

1 Ystadegau PAC a digwyddiadau galw heibio cyhoeddus ar gyfer y cyfnod 18 Tachwedd 2022 i 6 Ionawr 2023.

# HyBont Pen-y-bont ar Ogwr Prosiect Hydrogen Gwyrdd

## Lleoliad y safle

**Marubeni  
Europower**

Mae **Marubeni Europower** yn cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu cyfleuster cynhyrchu, storio ac ail-lenwi hydrogen gwyrdd ar dir yn Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynigion yn cynnwys fferm solar ym Mryncethin gerllaw, a fydd yn darparu ynni adnewyddadwy i helpu i bweru'r cynhyrchiad o hydrogen gwyrdd.

## Dewis safle

Dewiswyd safle Brynmenyn am nifer o resymau, gan gynnwys:

- **Yn agos at ddefnyddwyr terfynol posibl** megis cerbydau casglu sbwriel a bysiau cyhoeddus
- **Cyfleoedd ar gyfer rhwydwaith gwres ardal** ar gyfer ysgolion a chyfleusterau cymunedol lleol, sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- **Agosrwydd at y fferm solar**; elfen allweddol ar gyfer cynhyrchu hydrogen gwyrdd, gyda chysylltiad uniongyrchol â'r electrolysydd sydd ei angen.

Yn dilyn adborth a dderbyniwyd gan y gymuned, mae'r cysylltiad gwifren preifat a ffefir wedi'i nodi, fel y dangosir ar gynllun lleoliad y safle o'r Awyr gyferbyn. Roedd hwn yn opsiwn gwifren breifat 2 a gyflwynwyd yn ystod y PAC, sef y byrraf o'r ddau opsiwn (a ddangosir yn y dyfyniad isod).



Dyfyniad o gynllun lleoliad safle PAC  
(18 Tachwedd 2022 i 6 Ionawr 2023)




©2023 Google Earth

HyBont Pen-y-bont ar Ogwr  
Prosiect Hydrogen Gwyrdd

# Cyfleuster hydrogen gwyrdd

**Marubeni**  
Europower

- ① Mynediad
- ② Llif traffig un ffordd
- ③ Electrolysydd ac ardal gynhyrchu
- ④ Tanciau storio hydrogen
- ⑤ Piblinell hydrogen (o dan y ddaear)
- ⑥ Is-orsaf
- ⑦ Cywasgydd ail-lenwi hydrogen
- ⑧ Pwyntiau ail-lenwi â thanwydd
- ⑨ Cyfleustodau
- ⑩ Swyddfa'r safle/ystafell reoli
- ⑪ Waliau tân
- ⑫ Trelar tiwb siasi sengl
- ⑬ Bws hydrogen
- ⑭ Cerbyd casglu sbwriel hydrogen
- ⑮ Parcio ceir
- ⑯ Ffens y ffin
- ⑰ Pwll gwanhau
- ⑱ Tirlunio



**Golwg o'r awyr o'r cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd arfaethedig**

Argraff arlunydd at ddibenion enghreifftiol yn unig

**Bwrdd 3.**

# Mynediad a thrafnidiaeth



## Mynediad a thrafnidiaeth

### Yn ystod y cyfnod adeiladu:

Yn ystod y cyfnod adeiladu o 21 mis ar gyfer y cyfleuster hydrogen gwyrdd ym Mrynmenyn, rhagwelir 20 taith HGV (10 i mewn a 10 allan) a 50 o symudiadau staff (25 i mewn a 25 allan) bob dydd.

Bydd mynediad i'r safle yn ystod y gwaith adeiladu drwy Chilcott Avenue ar y dechrau, drwy estyniad syml i'r llwybr presennol, hyd nes y bydd mynediad i'r safle

oddi ar Squire Drive wedi'i adeiladu. Unwaith y bydd wedi'i adeiladu, bydd Squire Drive yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad i'r safle.


Yn ystod y cyfnod adeiladu o 6 mis ar gyfer y fferm solar ym Mryncethin, rhagwelir 12 taith HGV (chwech i mewn a chwech allan) a 40 o symudiadau staff (20 i mewn ac 20 allan) bob dydd.

### Yn ystod y cyfnod gweithredu:

Unwaith y bydd y cyfleuster hydrogen gwyrdd ym Mrynmenyn yn weithredol, rhagwelir y bydd 56 o deithiau cerbydau mawr (28 i mewn a 28 allan) – yn cynnwys bysiau unllawr, cerbydau casglu sbwriel a loriau nwyddau trwm, gan gynnwys trelars tiwb siasi sengl - a 10 symudiad staff (5 i mewn a 5 allan) bob dydd.

Cynigir mynediad i'r safle o Squire Drive a bydd lle parcio ar y safle i ddiwallu anghenion staff ac ymwelwyr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau na chynigion i newid y parcio ar y stryd sydd ar gael ar Squire Drive.

## Llwybrau gweithredu ac adeiladu arfaethedig



Enghreifftiau nodweddiadol o gerbydau/HGVs

Ordnance Survey ©Crown Copyright 2023. All rights reserved. Licence number 0100031673 (Not to Scale).

# HyBont Pen-y-bont ar Ogwr Prosiect Hydrogen Gwyrdd


## Llinell amser dangosol y prosiect.

**Marubeni  
Europower**

Yn dilyn Ymgynghori Cyn Ymgeisio, a chyda gwaith archwilio safle bron wedi'i gwblhau, mae tîm y prosiect yn cwblhau'r cynigion ar gyfer **Prosiect Hydrogen Gwyrdd HyBont Pen-y-bont ar Ogwr** cyn cyflwyno cais cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad statudol cyn penderfynu ar y cais cynllunio.

Ar yr amserlen bresennol, ac yn amodol ar roi caniatâd cynllunio a phenderfyniad buddsoddi terfynol ar y prosiect, gallai gwaith ddechrau ar y safle ym mis Medi/Hydref 2023, gyda'r hydrogen gwyrdd cyntaf yn cael ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf 2025.

### Llinell amser dangosol y prosiect (2022 - 2025)



<sup>1</sup> Sefydliad Datblygu Ynni a Thechnoleg Diwydiannol Newydd (NEDO)

<sup>2</sup> Ymchwil ac Arloesi Busnes Hydrogen ar gyfer Datgarboneiddio (HyBRID)

<sup>3</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

<sup>4</sup> Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (McD)

<sup>5</sup> Yn amodol ar roi caniatâd cynllunio